# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (O BELL TRWY TEAMS)

| <u>**Aelodau'n bresennol:**</u> | <u>**Dydd Mawrth, 10 Tachwedd 2020**</u> |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams, S.Renkes a/ac M.Protheroe |
| **Aelod CDU/CDLI:** | Aelod A.Wingrave |
| **Swyddogion yn bresennol:** | S.Ball, M.Shaw, R.MacGregor, T.Davies, C.Mewburn, B.Stark, M.Thomas a/ac T.Davies |

---

1. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Davies - | Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Cais rhif P2020/0752, gan ei bod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera. Ystyriodd y Cynghorydd Davies ei datganiad fel un rhagfarnol, felly gadawodd y cyfarfod am yr eitem hon, ac ni chymerodd rhan yn y drafodaeth na'r bleidlais ar ôl hynny. |

2. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

| | |
|---|---|
| **PENDERFYNWYD:** | Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2020 fel cofnod cywir. |

3. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

4. **TAFLEN DDIWYGIADAU**

Nodyn: Dosbarthwyd taflen ddiwygio mewn perthynas â chais rhif: P2020/0752 cyn y cyfarfod, a rhoddodd y Cadeirydd amser digonol i'r aelodau ei darllen, mewn perthynas ag eitem y cais ar yr agenda a gyhoeddwyd, rhoddodd y Cadeirydd ganiatâd i'w dosbarthu/hystyried yn ystod y cyfarfod heddiw oherwydd y rhesymau a'r sefyllfa benodol lle nad oedd am ohirio unrhyw geisiadau ac i sicrhau bod aelodau'n ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn ystod y cyfarfod.

5. **CAIS RHIF P2020/0752 - YSGOL YSTALYFERA, MAES CHWARAE 2G**

(Yn yr eitem hon, gadawodd y Cynghorydd R Davies y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais.)

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Adeiladu cae chwaraeon 2G gyda llifoleuadau cysylltiedig (8 colofn 15m o uchder), a chaeau amgaeëdig a gwaith cysylltiedig ar dir yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera, SA9 2JJ) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cais rhif P2020/0752 yn unol ag argymhellion Swyddogion, gan ystyried y diwygiad i Amod 3, fel y nodir yn y Daflen Ddiwygiadau a ddosbarthwyd, ac yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

6. **CAIS RHIF P2020/0758 - 21 BROAD STREET, PORT TALBOT**

(Ailymunodd y Cynghorydd R Davies â'r cyfarfod.)

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Newid defnydd y garej ddomestig bresennol i Ystafell Driniaeth Harddwch a storfa yn 21 Broad Street, Port Talbot, SA13 1EW) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn unol â'r Protocol Siarad Cyhoeddus a gymeradwywyd gan y cyngor, roedd y siaradwr cofrestredig (yr ymgeisydd) wedi annerch y Pwyllgor Cynllunio. Rhoddodd un o aelodau'r ward leol (aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y Cynghorydd D Keogh) ei sylwadau, a thynnodd ei wrthwynebiadau yn ôl.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cais rhif P2020/0758 yn unol ag argymhellion Swyddogion, ac yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

7. **CAIS RHIF P2020/0858 – FFERM CILPENTAN, TAI'R-GWAITH**

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Disodli ac ail-leoli system trin tanciau septig/dŵr llwyd sydd eisoes yn bodoli yn Fferm Cilpentan, Ffordd Llwyncelyn, Tai'r-gwaith SA18 1UU) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cais rhif P2020/0858 yn unol ag argymhellion Swyddogion, ac yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**CADEIRYDD**